

Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn

Ffurflen ymateb i'r ymgyngoriad

Eich enw: [Vaughan Salisbury,](#)
[Ysgrifenydd Materion Addysg](#)

Sefydliad/Corff [Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru](#)

e-bost/rhif ffôn e-bost/rhif ffôn:vaughan143@gmail.com
[/07950655477](tel:07950655477)

Eich cyfeiriad: [Glanaber, Tregeiriog,](#)
[Llangollen LL20 7LA](#)

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **28 Tachwedd 2019** i:

Tîm MDPH Iechyd a Lles
Cangen y Celfyddydau, y Dyniaethau a Llesiant
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod

e-bost: AHWB@llyw.cymru

Nodwch pa un o'r grwpiau rhanddeiliaid canlynol rydych yn perthyn iddo:

Plentyn neu berson ifanc	<input type="checkbox"/>
Rhiant/gofalwr	<input type="checkbox"/>
Aelod arall o'r teulu	<input type="checkbox"/>
Ysgol, athro, llywodraethwr	<input type="checkbox"/>
Ymarferydd addysg arall	<input type="checkbox"/>
Sefydliad neu gorff cynrychioliadol	<input checked="" type="checkbox"/>
Unigolyn	<input type="checkbox"/>
Arall	<input type="checkbox"/>

Arall (nodwch): _____

Cwestiwn 1 – Beth fyddai'r goblygiadau i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr ac ysgolion petai'n ofynnol i bob dysgwr gael gwersi Addysg Grefyddol a/neu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn y cwricwlwm newydd?

Rhowch eich sylwadau yn y lle gwag isod:

Mae'r atebion a nodir isod yn ymwneud yn benodol â'r newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud ag **addysg grefyddol yn unig**.

Goblygiadau i ddysgwyr: Petai'n ofynnol i bob dysgwr dderbyn Addysg Grefyddol yn y cwricwlwm newydd, yna mae mwy o siawns y bydd pob dysgwr yn dod yn fwy llythrennog yn addysgol mewn trafodaethau sy'n ymwneud â materion crefyddol mewn ysgol ac yn y gymdeithas yn gyffredinol.

Y goblygiadau i rieni/gofalwyr: a) Byddai gwell cyfle i rieni/gofalwyr sylweddoli nad yw addysgu Addysg Grefyddol yn fygythiad i'w credoau personol. b) Mae'n bosib hefyd y gallent hwy gynyddu eu dealltwriaeth o'r materion crefyddol ehangach sy'n wynebu credinwyr a rhai nad ydynt yn gredinwyr mewn cymdeithas ac sy'n aml yn cael sylw yn y penawdau a'u trafod yn arwynebol yn y cyfryngau. c) Yn ôl Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, mae hawl rhieni i dynnu plentyn allan o addysg grefyddol yn anghydnaws â hawliau dynol plant o dan ddeddfwriaeth ddomestig y Ddeddf Hawliau Dynol 1998, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a'r ymrwymiad yng Nghymru i Gomisiwn y Cenhedloedd Unedig sydd wedi'i warantu gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.

Goblygiadau i ysgolion: a) O ystyried bod y ddarpariaeth bresennol yn aml yn annigonol ac yn anghyson, credaf y byddai'r trefniant newydd hwn yn cael ei groesawu gan ysgolion, e.e. byddai'n hwyluso'n sylweddol natur ryngddisgyblaethol y cwricwlwm newydd. b) Lle byddai'n berthnasol, byddai angen rhoi eglurhad ac arweiniad gofalus a sensitif i'r rhieni/gofalwyr hynny a fyddai gynt wedi gwneud cais i'w plant gael eu tynnu allan o wersi Addysg Grefyddol. c) Byddai angen darparu hyfforddiant a threfniadau ychwanegol er mwyn sicrhau y byddai Addysg Grefyddol yn cael ei addysgu i bob plentyn rhwng 3 ac 16 oed, yn enwedig y rhai mewn meithrinfa.

Cwestiwn 2 –Pa gymorth, gwybodaeth ac arweiniad fyddai eu hangen petai'r dull gweithredu hwn yn cael ei fabwysiadu?

Rhowch eich sylwadau yn y lle gwag isod:

Byddai angen i uwch athrawon ac athrawon Addysg Grefyddol drafod y materion gyda dysgwyr/rhieni/gofalwyr fel y nodwyd uchod wrth ateb cwestiwn 1.

Cwestiwn 3 – Ein cynnig yw na ddylai rhieni/gofalwyr allu atal eu plant rhag cael gwersi Addysg Grefyddol neu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb. Caiff hyn ei gyflwyno o fis Medi 2022, i bob dysgwr oed cynradd a dysgwyr ym Mlwyddyn 7 yn yr ysgol uwchradd (gyda grwpiau blwyddyn eraill yn cael eu hychwanegu bob blwyddyn).

A ddylai gallu rhieni/gofalwyr i atal eu plentyn rhag cael gwersi Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb hefyd ddod i ben o dan yr hen gwricwlwm o fis Medi 2022? (Byddai hyn ond yn effeithio ar ddysgwyr ym Mlwyddyn 8–11 yn 2022, Blwyddyn 9–11 yn 2023 ac yn y blaen.)

Dylai	<input checked="" type="checkbox"/>	Na ddylai	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	--------------	--------------------------

Nodwch y rhesymau dros eich dewis:

Petai'r trefniadau presennol yn dod i ben yna byddai gan y plant hynny well siawns o gael eu haddysgu'n briodol mewn materion crefyddol ac anghrefyddol sydd mor berthnasol yn lleol, yn genedlaethol ac ar draws y byd heddiw.

Cwestiwn 4 – Beth sy'n enw priodol i 'addysg grefyddol', er mwyn adlewyrchu'r cwmpas ehangach a gynigir ar gyfer y cwricwlwm newydd yn gywir?

Dim newid	<input checked="" type="checkbox"/>	Crefyddau, gwerthoedd a moeseg	<input type="checkbox"/>	Crefyddau a bydolygon	<input type="checkbox"/>	Arall (nodwch)	<input checked="" type="checkbox"/>
-----------	-------------------------------------	--------------------------------	--------------------------	-----------------------	--------------------------	----------------	-------------------------------------

Arall (nodwch): 1) Crefyddau a Dyneiddiaeth NEU 2) Dim Newid

Y rhesymau dros eich dewis:

Bydd beth bynnag a gynigir yma yn broblemus o ystyried yr astudiaeth ychwanegol o bersbectif anghrefyddol ar fywyd mewn cwricwlwm sydd ar hyn o bryd yn canolbwyntio'n llwyr ar astudiaeth aml-ffydd eang o faterion lleol, cenedlaethol a byd-eang. Rydym yn cynnig dau enw posib:

1. 'Crefyddau a Dyneiddiaeth' gan ei fod yn cyflwyno'n union beth fydd yn cael ei astudio yn ôl dogfennau'r cwricwlwm newydd. Mae'r dogfennau hynny'n cyfeirio dro ar ôl tro at 'Ddyneiddiaeth' fel enghraifft o safbwynt nad yw'n grefyddol y gellid ei astudio, ac fe ymddengys mai'r Dyneiddwyr sy'n fwyaf brwdfrydig i gael eu cynnwys yn y cwricwla Addysg Grefyddol. O ystyried y sefyllfa hon, beth am yn syml enwi'r persbectif anghrefyddol a fydd yn cael ei astudio. Mae hyn hefyd yn osgoi'r broblem o amwystr wrth ddefnyddio'r term lluosog 'bydolygon' neu a oes bwriad i astudio mwy o safbwyntiau anghrefyddol, a hyd yn oed safbwyntiau gwrth-grefyddol a llai o grefyddau gydag amser. Byddai cadw'r gair 'Crefyddau' yn yr enw newydd hefyd yn rhoi eglurder i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr ac mae hyn yn bwysig o ran cyflwyno'r pwnc ar lefel ysgol.

Byddai hyn hefyd yn ddadl dros beidio â defnyddio'r gair 'Crefydd' yn y teitl. Er bod gan y gair fframwaith cyfeirio cysyniadol sy'n ddefnyddiol ac y bydd yn aml yn cael ei ddefnyddio mewn cyrsiau Astudiaethau Crefyddol Addysg Uwch, nid yw'n darparu digon o ffocws nac

egllurder o fewn cyd-destun ysgol sydd ag ystod oedran 3-16. O ystyried yr enw newydd amgen a gynigir gennym ar gyfer Addysg Grefyddol sef, 'Crefyddau a Dyneiddiaeth' a chan gydnabod y bydd angen newid geiriad y gyfraith i gynnwys Dyneiddiaeth, rydym yn gryf o'r farn y dylai'r gyfraith a'r astudiaeth o'r pwnc barhau i 'adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw traddodiadau crefyddol Prydain Fawr gan gymryd i ystyriaeth ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir ym Mhrydain Fawr'. Byddai'n briodol felly i 'gymryd i ystyriaeth' yr astudiaeth o Ddyneiddiaeth yn y cwricwlwm Addysg Grefyddol yn gyfwerth ag un o'r 'prif grefyddau eraill'.

Mae'r gair 'bydolygon' yn broblemus yn yr enw 'Crefydd a Bydolygon' (cynnig adroddiad CORE yn Lloegr) ac yn yr enw 'Crefyddau a Bydolygon' (cynnig LIC) gan nad oes diffiniad i'r gair. Beth a olygir wrth 'fydolwg'? Mae Sandberg yn nodi mewn erthygl yn ddiweddar 'One area where centralised directive would be advisable would be in relation to providing guidance as to what constitutes a 'worldview'. This is an area of legal uncertainty at present. Employment Tribunals have struggled with it...' (lawandreligionuk.com 'Religion in schools in Wales', 4 Hydref 2019). O safbwynt y gyfraith bresennol a chanllawiau CYSAG, mae'n gwbl eglur a hirsefydlog o ran pa grefyddau sy'n cael eu hastudio ond nid yw hyn yn wir o ran astudio'r elfen nad yw'n grefyddol. Mae angen ymchwilio'n drylwyr i'r mater hwn er mwyn sicrhau bod y term yn eglur ac yn dryloyw i'r holl randdeiliaid.

Gallai goblygiadau'r drafodaeth hon ar 'fydolygon' fod yn sylweddol. Er enghraifft, a yw 'bydolygon' yn ymwneud yn unig â'r elfen astudio nad yw'n grefyddol? A yw'r defnydd o 'Crefydd/au a Bydolygon' yn ymwneud â'r modd y bydd gwahanol elfennau'r pwnc yn cael eu pwysoli, sef 50% ar gyfer astudio crefyddau a 50% ar gyfer astudio safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol? Os mai dyna a gynigir, yna byddem yn anghytuno yn sylfaenol â'r dehongliad hwnnw. Yn drydydd, o ystyried y gair lluosog 'bydolygon', pa sawl bydolwg a ragwelir yma? Mae goblygiadau yma o ran (a) amser y cwricwlwm er mwyn sicrhau bod elfennau'r pwnc yn cael eu hastudio'n briodol a (b) beth yn union fydd y bydolygon eraill a astudir? Mae'n hollbwysig cael eglurder ar y materion uchod ar gyfer pawb dan sylw. Mae defnyddio'r gair 'Dyneiddiaeth' fel rhan o enw'r pwnc newydd fel y nodwyd uchod yn osgoi'r holl broblemau posibl hyn.

2. Dim newid. Rydym hefyd yn cydnabod nad yw astudio safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol yn gyfyngedig i'r cwricwlwm Addysg Grefyddol. Yn ôl pob tebyg, wrth astudio hanes yr ugeinfed ganrif mewn ysgolion byddai rhai elfennau o Farcsiaeth a Natsiaeth/ffasgiaeth yn cael eu haddysgu. Felly, byddai safbwyntiau nad ydynt yn grefyddol yn treiddio i gwricwlwm y Dyniaethau ar wahanol adegau, yn enwedig ar lefel ysgol uwchradd. O ystyried y sefyllfa hon, oni fyddai'n well cadw enw'r pwnc sef Addysg Grefyddol fel ag y mae ar hyn o bryd gan ychwanegu'r amod cyfreithiol fod Dyneiddiaeth hefyd yn cael ei addysgu o dan enw'r pwnc Addysg Grefyddol sydd wedi hen sefydlu. I gefnogi 'dim newid', byddem hefyd yn eich cyfeirio at baragraff 22 o'r ddogfen ymgynghori sy'n datgan 'Felly, rydym yn cynnig y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn sicrhau bod y maes llafur cytunedig ar gyfer Addysg Grefyddol yn ystyried bydolygon anghrefyddol sy'n ddigon tebyg i grefyddau (er enghraifft, dyneiddiaeth)'. Os gwelir dyneiddiaeth yn 'ddigon tebyg i grefyddau', yna nid oes rheswm i newid enw'r pwnc a phob rheswm i'w gadw fel y mae.

Yn amlwg, bydd angen i ba bynnag enw a fabwysiedir yn y diwedd gael ei esbonio a'i ddatblygu'n ofalus yn y fframwaith newydd arfaethedig ar gyfer Addysg Grefyddol. Y Fframwaith yw'r hyn fydd yn sylfaenol bwysig wrth gyflwyno'r pwnc yn llwyddiannus yn yr ysgol ac ar lefel awdurdod lleol gyda'r posibilrwydd o'i fabwysiadu fel maes llafur cytûn.

dynnu yn ôl yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

- i) Byddai dysgwyr yn cael mwy o eirfa Gymraeg yn y pwnc hwn ac o ganlyniad yn teimlo'n fwy hyderus wrth drafod materion crefyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ii) Byddai'n cyfrannu at hyrwyddo statws cyfartal rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yng ngolwg y dysgwr a rhieni/gofalwyr.

Cwestiwn 6 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Drwy newid y gyfraith i'r hyn a gynigir.

Cwestiwn 7 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae'r cyfieithiad Cymraeg o'r gair 'pluralistic' yn y ddogfen Saesneg, e.e. paragraffau 3, 7 a 30 sef 'amblwyfol' neu 'amblwyfaeth' (7) yn y ddogfen Gymraeg yn amhriodol ac yn gamarweiniol a dylid ei newid cyn gynted ag y bo modd. Mae eisoes wedi arwain at gamddealltwriaeth mewn cylchoedd eglwysig penodol yng Nghymru gan ei fod yn cyfeirio yn hanesyddol at yr arferiad o ddal mwy nag un swydd eglwysig neu blwyf ar y tro. Nid yw hyn yn arfer da mewn dogfen Addysg Grefyddol! Awgrymwn fod amrywiadau ar y gair Cymraeg 'lluosog' yn cael eu defnyddio yma.

Mae'r cyfieithiad hwn hefyd yn berthnasol i'r ddogfen Gymraeg, 'Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru', tudalen 4.

Yn ein barn ni, mae hefyd yn anffodus ac yn gamarweiniol bod Addysg Grefyddol ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb wedi cael eu cyflwyno gyda'i gilydd yn y ddogfen ymgynghori hon gan eu bod yn agweddau gwahanol a hollol ar wahân ar gwricwlwm ysgol.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhynggrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma:

